



# **Adroddiad Blynyddol** y **Bwrdd Monitro Annibynnol** yn

## **CEM y Berwyn**

**ar gyfer y flwyddyn adrodd  
(1 Mawrth 2017 i 28 Chwefror 2018)**

**Cyhoeddwyd  
Gorffennaf 2018**



*Monitro tegwch a pharch i bobl yn y ddalfa*

**Adrannau Cyflwyniadol**

<b>Adran</b>	<b>Pwnc</b>	<b>Tudalen</b>
<b>1</b>	<b>Rôl Statudol</b>	<b>3</b>
<b>2</b>	<b>Cyflwyniad / Crynodeb Gweithredol</b>	<b>4</b>
<b>3</b>	<b>Disgrifiad o'r Sefydliad</b>	<b>6</b>

**Adrannau Tystiolaeth**

<b>4</b>	<b>Diogelwch</b>	<b>7/8</b>
<b>5</b>	<b>Cydraddoldeb a Thegwch</b>	<b>9/10</b>
<b>6</b>	<b>Uned Ymwahanu / Gofalu a Gwahanu</b>	<b>11</b>
<b>7</b>	<b>Llety (yn cynnwys cyfathrebu</b>	<b>12</b>
<b>8</b>	<b>Gofal iechyd (yn cynnwys iechyd meddwl a gofal cymdeithasol)</b>	<b>13/14</b>
<b>9</b>	<b>Addysg a Gweithgaredd Pwrpasol Arall</b>	<b>15</b>
<b>10</b>	<b>Gwaith, Hyfforddiant Galwedigaethol a Chyflogaeth</b>	<b>16</b>
<b>11</b>	<b>Paratoi ar gyfer Adsefydlu</b>	<b>17/18</b>

<b>19</b>	<b>Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol (y Bwrdd)</b>	<b>19</b>
<b>20</b>	<b>Ceisiadau i'r Bwrdd</b>	<b>20</b>
<b>21</b>	<b>Rhestr o Fyrfoddau Carchar a Ddefnyddir</b>	<b>21</b>

### 1 RÔL STATUDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

---

Mae Deddf Carchardai 1952 yn ei gwneud yn ofynnol i bob carchar gael ei fonitro gan Fwrdd annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o aelodau'r gymuned y mae'r carchar neu'r ganolfan ynddi.

Mae gan y Bwrdd y cyfrifoldeb penodol i:

- (1) fodloni ei hun ynghylch triniaeth drugarog a theg y rhai hynny a gedwir yn ei gadwraeth o fewn ei garchar ac ystod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau a pha mor ddigonol yw'r rhaglenni hynny.
- (2) rhoi gwybod yn syth i'r Ysgrifennydd Gwladol neu i unrhyw swyddog y mae wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y mae'n barnu'n briodol, am unrhyw bryderon sydd ganddo.
- (3) **adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gystal y mae'r carchar wedi cwrdd â'r safonau a'r gofynion a roddwyd arno a pha effaith y mae'r rhain wedi'i chael ar y rhai yn ei gadwraeth.**

Fel bod modd i'r Bwrdd ymgymryd â'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor ac at bob rhan o'r carchar a hefyd at gofnodion y carchar ac eithrio cofnodion meddygol.

## CYFLWYNIAD

Yr adroddiad hwn yw canfyddiadau'r Bwrdd Monitro Annibynnol ar CEM Berwyn am y cyfnod 1 Mawrth i 28 Chwefror 2018. Daw tystiolaeth y Bwrdd o sylwadau a wnaed ar ymweliadau, craffu cofnodion a data, cyswllt â'r dynion a staff, arolygon a cheisiadau i'r Bwrdd.

O gofio mai hwn yw adroddiad blynyddol cyntaf y carchar cyntaf i'w godi a'i reoli gan y Gwasanaeth Carchardai ers 30 o flynyddoedd a'i fod yn gweithredu system newydd o adsefydlu, bu rhaid cynnwys mwy o wybodaeth eglurhaol na fyddai'n arferol.

Nid yw'n bosib adrodd 'trwy eithriad' heb ddogfen sylfaenol a hon, adroddiad cyntaf y Bwrdd Monitro Annibynnol, yw'r ddogfen sylfaenol honno

## 2 CRYNODEB GWEITHREDOL

---

### Prif ddyfarniadau

---

Caiff dynion eu trin yn deg a pharchus yn y Berwyn gyda phob ymgais yn cael ei wneud i ddiwallu'r rhai hynny sy'n gweld cadwraeth a'r symudiad tuag at adsefydlu yn arbennig o heriol. Fodd bynnag, bu adegau pan roedd tegwch dan fygythiad oherwydd oedi, yn enwedig felly wrth ddarparu gwaith a addawyd (Adran 10.1) a defnyddio gweithiwr allweddol dynodedig yn syth (Adran 7.4). Nodir gwelliannau, gyda mwy i ddod, wrth i'r gweithdai diwydiannol gael offer, a staff newydd ddod yn fwy cyfarwydd â'u dyletswyddau. Mae'r Bwrdd yn bryderus y byddai peidio ag ystyried bod angen i holl agweddau'r system fod yn eu lle'n llawn wrth gynllunio i gynyddu nifer y dynion sy'n cyrraedd, yn andwyo gwaith cyffredinol cyflawni'r ymagwedd newydd a gwahanol hon i garcharu.

Mae gwaith sefydlu a gweithredu'r Berwyn yn parhau i fynd rhagddo gyda'r sefydliad yn gweithio tuag at ganfod a chynnal y cydbwysedd cywir rhwng adsefydlu a diogelwch, rhwng gwobrwyon a chosbau a rhwng rhyddid a rheoli er mwyn ei wneud yn garchar diogel ac adsefydlol yn barhaol.

Daw'r pwyslais ar driniaeth drugarog o'r top ac mae'n llywio'r holl benderfyniadau allweddol. Caiff yr ymagwedd hon ei chefnogi'n fedrus gan y tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (Adran 5). Mae gan y Bwrdd bryderon ynghylch gweithredu polisi meddygyniaethau sy'n golygu, am resymau diogelwch rhagnodi, nad yw canran fechan o ddynion yn derbyn eu holl feddygyniaeth neu ran ohoni, meddygyniaeth y teimlant eu bod yn gwbl ddibynnol arni. Amlygir y sefyllfa hon gan ganran y dynion yn yr Uned Gofalu a Gwahanu (Adran 6.7) sy'n dweud na allant ymdopi yn y lleoliad arferol heb eu meddygyniaeth a ragnodwyd iddynt ynghynt. Mae ymyraethau eraill ar gael trwy Ofal Iechyd, Iechyd Meddwl a Seicoleg ond maent i gyd yn cymryd amser tra bo optimistiaeth a mesuriadau meddygyniaeth bron yn syth (Adran 8.8/8.9). Nodir bod polisi rhagnodi cyffredinol yng Ngharchar y Berwyn wedi'i seilio'n gadarn dan ganllawiau NICE ( y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.)

Mae peth wmbreth o waith wedi'i wneud i baratoi dynion ar gyfer cael eu rhyddhau a'u hailsefydlu (Adran 11). Mae llawer o ddefnydd wedi'i roi ar weithio gyda phartneriaid allanol sy'n cyfrannu'n fawr at y darlun cyffredinol. I ddynion sy'n ymgysylltu'n gadarnhaol â phopeth a gynigir, mae dyfodol iddynt y tu allan i giatiau'r carchar. I'r rhai a ddewisodd peidio â gwneud hynny, maent yn parhau i fod yn rhan o 'ddrws troi' troseddu/y ddalfa/troseddu y mae'r gyfundrefn yn y Berwyn yn ceisio rhoi sylw iddi.

---

### Prif Feysydd i'w Datblygu

---

## **I'R GWEINIDOG**

Rhaid canmol y Weinyddiaeth am gefnogi gwaith codi a gweithredu sefydliad newydd gyda chfyfudrefn newydd flaengar. Nid yw hyn yn golygu na fydd, o bosib, addasiadau/cywiriadau wrth i'r sefydliad dyfu a symud yn ei flaen. Fodd bynnag, er gwaethaf y newidiadau posib hynny, bydd y Berwyn yn enghraifft ymarferol o'r hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn nad yw'n gweithio cystal a'r hyn y gellir neu y dylir rhoi'r gorau iddo. Cyn belled ag y gŵyr y Bwrdd, nid yw'r gallu i adolygu ac asesu'r ffordd ymlaen o ran cyfeiriad y math o ddalfa sy'n briodol ar gyfer yr<sup>21</sup>ain ganrif erioed wedi bod ar gael o'r blaen.

## **I'R GWASANAETH CARCHARDAI**

Yn dilyn gwaith codi, agor a gweithredu'r Berwyn fel carchar gweithredol, gyda gwaith adeiladu'n parhau i fynd rhagddo, mae heriau sylweddol. Mae angen rheoli'r cynnydd a gynlluniwyd yn nifer y dynion yn sensitif, o gofio bod llawer o'r hyn sydd ar gael yng ngharchar y Berwyn yn gwbl wahanol i'r hyn sydd mewn sefydliadau eraill. Fel sefydliad categori C mae'r dynion sy'n cyrraedd i gyd wedi treulio amser mewn dosbarthiadau ehangach o garchar ac wedi dod yn gyfarwydd â gwahanol gyfundrefnau. Fel rhan o'r gyfundrefn adsefydlol mae disgwyl iddynt gymryd cyfrifoldeb drostynt eu hunain ac mynd ati i symud tuag at fywyd mwy normal wrth iddynt baratoi ar gyfer statws Categori D ac yna gael eu rhyddhau. Mae'n anochel bod rhai yn cael hyn yn anos nag eraill ac mae angen sicrwydd trefn fwy strwythuredig arnynt ond, ar ei uchaf, bod yn y carchar yw hynny, ac nid bywyd go iawn mohono. Nid yw symud tuag at adsefydlu a normalrwydd yn llwybr hawdd, rhaid wrth ymdrech, dycnwch a chanolbwyntio gan y staff a'r dynion. Rhaid wrth hefyd gefnogaeth y Gwasanaeth Carchardai fel hwylusydd wrth sicrhau'r canlyniadau gorau posib.

## **I'R LLYWODRAETHWR**

Ni ellir gorbwysleisio her codi sefydliad o faint a chymhlethdod Berwyn o'r 'bwrdd dylunio' ac mae'r ffaith ei fod yn weithredol, gyda llawer o enghreifftiau o arfer da ac arloesol yn gyflawniad sylweddol. Fodd bynnag, wrth i'r sefydliad symud yn ei flaen, mae angen iddo esblygu yn unol â phrofiad. Un o nodweddion allweddol yr esblygiad hwn yw gwneud i'r bychan deimlo'n fawr, gyda'r gallu i wahanu'r dynion hynny ag anghenion a gofynion penodol yn Gymunedau dynodedig, er enghraifft Glyndwr (Gweler Adran 4.9). Gall y Bwrdd ragweld amser pan fo Cymunedau arbenigol ar bob un o'r tri thŷ i gwrdd ag anghenion dynodedig.

Mae gan y Bwrdd bryderon gwirioneddol ynghylch cyffuriau anghyfreithlon a ddaw i mewn i'r carchar ac sy'n ymddangos eu bod ar gael yn hawdd yn y sefydliad a byddai'n gofyn cymryd pob cam i leihau'r broblem i'r eithaf.

Mae gweithredu ymweliadau'n hanfodol i drefn dda'r sefydliad (Gweler Adran 4.14) ym marn y Bwrdd a byddai'n disgwyl i addasiadau gael eu gwneud i'r gyfundrefn yn wyneb tystiolaeth, wrth i'r sefydliad ddatblygu a thyfu.

Mae gan y Bwrdd bryderon nad yw'r cynllun Gweithiwr Allweddol mor gynhwysfawr ag y dylai fod ac mae'n edrych ymlaen at ragor o welliannau. (Gweler Adran 7.4)

O ran yr union adeiladau, mae'r prinder ystafelloedd cyfweld (Adran 7.2) a chyfleusterau Cyfarfod/Cynadleda'n fater gwirioneddol a'r gobaith yw pan fo'r adeiladwyr yn gorffen y gwaith ac yn gadael y safle, y byddir wedi rhoi sylw i'r materion hyn.

## **I'R DARPARWR (Gofal Iechyd/Addysg/Cynnal a Chadw)**

**Gofal Iechyd**- Gweler Adran 8

**Addysg**- Gweler Adran 9

### 3 DISGRIFIAD O'R CARCHAR

---

Carchar Adsefydlu a Hyfforddi Categori C yw CEM y Berwyn a phan fydd yn llawn bydd yn dal 2106 o garcharorion , *y'u gelwyr yn ddynion yn y Berwyn, fel cam pwysig tuag at adsefydlu a normalrwydd.* Mae tri thŷ mawr. Mae gan bob tŷ bedwar sawdl o amgylch canol craidd sy'n debyg i siap y llythyren Saesneg K. At bwrpas C-Nomis/yr Adeilad, adwaenir pob un o'r rhain fel ABCD. Yna is-rennir pob sawdl yn ddau lawr hunangynhwysol, y llawr uchaf a'r llawr isaf, a chânt eu labelu a'u hadnabod fel Cymuned - wyth Cymuned ym mhob un o'r tri thŷ, cyfanswm o 24 Cymuned pan fyddant yn gwbl agored a llawn. Ystafelloedd sengl a dwbl a ddarperir, gyda chymhareb o 30% sengl 70% dwbl.

Mae'r sefydliad ar Stad Ddiwydiannol Wrecsam a hwn yw'r unig garchar yng Ngogledd Cymru

## B Adrannau tystiolaeth 4-11

### 4 DIOGELWCH

---

4.1 Rhoddir blaenoriaeth uchel i ddiogelwch yn y Berwyn ac fe'i cefnogir gan Strategaeth Cymunedau Diogel y sefydliad.

Mae dynion sydd newydd eu derbyn a'r rhai sy'n dychwelyd o'r llysoedd yn cyrraedd y sefydliad ar adegau priodol sy'n caniatáu iddynt gael eu derbyn ac i waith gwirio'u hiechyd a threfniadau'r noson gyntaf gael eu gwneud yn effeithiol ac ar awr briodol.

Bydd aelodau'r Bwrdd yn aml yn gwyllo dynion yn cyrraedd yn y dderbynfa ac o'r farn fod y gosodiad yn arwain at arfer da. Mae nifer o ystafelloedd aros ar gael, yn ogystal ag ystafell bwrpasol i swyddogion a staff nyrsio gynnal gwaith sgrinio dynion sydd newydd gyrraedd mewn preifatrwydd.

Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan y Dderbynfa ar gyfer dynion newydd sy'n cyrraedd yn haeddu sylw. Mae'r lle'n lân, ffres a chroesawgar, ac mae diodydd poeth a bwyd ar gael yn ogystal â phresenoldeb cymheiriaid, sy'n gweithio yn y Dderbynfa i sôn wrth y dynion sydd newydd gyrraedd sut brofiad yw hi i fyw yn y Berwyn.

4.5 Amlyga ystadegau arolwg o Chwefror 2018 fod 96.9% o ddynion wedi dweud fod y croeso yn y dderbynfa'n dda iawn neu'n dda.

Mae Cymuned Croeso bwrpasol i'r holl ddynion newydd i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth angenrheidiol wrth iddynt ddechrau integreiddio i'r sefydliad.

4.7 Ystyria'r Bwrdd fod y rhaglen ymsefydlu, sy'n rhan o'r rhaglen amlddisgyblaethol a roddir gan staff a chymheiriaid yn dda iawn. Mae aelodau wedi bod yno fel sylwedyddion.

4.8 Ar ddiwedd eu hwythnos groeso, cyfeirir dynion at y gymuned sydd orau iddynt o ran cwrdd â'u hanghenion personol ac adsefydlu. Dyma lle mae gan sefydliad mawr, sydd â'r gallu i wahanu'n gymunedau priodol, fanteision gwirioneddol iawn e.e. yr Wyddfa i drigolion hŷn, Shaun Stocker i Gyn-filwyr a'r rhai sy'n newydd i gadwraeth, Menai i ddynion y mae byw â chymorth (o ddydd i ddydd ac iechyd meddwl) o fudd iddynt ynghyd â mentoriaid a sefydlogwyr sydd hefyd yn byw ar y Gymuned ac yn fwy diweddar, Glyndwr.

4.9 Mae Glyndwr yn cyd-fynd yn agos iawn â'r Cynllun Herio, Cefnogi ac Ymyrryd Cenedlaethol (y CSIP). Mae hi'n gymuned flaengar sydd wedi'i chynllunio'n ofalus ac sydd â chefnogaeth gref i ofal iechyd a seicoleg. Ceidw Glyndwr y dynion mwyaf heriol yn y Berwyn am gyfnod sefydlog o 12 wythnos, gan gynnig iddynt amgylchedd lle gallant adnabod eu problemau a'u datrys er mwyn mynd yn eu blaenau yn y Berwyn.

4.10 Cynhaliwyd Arolwg lleol LleihauTrais yn Ionawr 2018. Mewn ymateb i gyfres o gwestiynau, dywedodd 81% o'r dynion a gwblhaodd yr arolwg eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y Berwyn. Fodd bynnag, dengys hynny bod bron i 20% nad oeddynt. Nododd dynion mai cyffuriau a dyled yn sgil hynny oedd y rheswm mwyaf am achosion o drais.

4.11 Cefnoga'r arolwg hwn wybodaeth a rydd dynion ar y cymunedau ar lafar i aelodau'r Bwrdd ac, yn fwy penodol, wybodaeth a roddir mewn Adolygiadau Rheol 45, pan fo cyffuriau a phroblemau dyled yn sgil hynny wedi cael cymaint o effaith ar ddynion fel eu bod yn teimlo mai'r unig opsiwn sydd ganddynt yw 'mynd am loches' yn yr Uned Gofalu a Gwahanu, a adwaenir fel Ogwen.

Fe'i gwneir yn glir i ddynion nad uned breswyl yw Ogwen ac fe'u cedwir yno am cyn lleied o amser â bo modd hyd oni bydd bwriad i'w hintegreiddio i gymuned briodol

4.13 Ar hyn o bryd mae digwyddiadau sy'n defnyddio grym yn uwch na'r hyn y byddent yn dymuno'u gweld. Fodd bynnag, gwneir gwaith diwyd yn adrodd ar hyn, gydag adroddiadau'n cael eu gwneud ar ddefnyddio grym yn cynnwys rheoli ac atal, a thechnegau gwarchod personol. Mae gan nifer sylweddol (89%) o staff gweithredol rheng flaen lai na dwy flynedd o brofiad, a chaiff hyn effaith ar eu sgiliau i liniaru sefyllfaoedd a'u hatal rhag datblygu'n ddigwyddiadau lle mae angen defnyddio grym. Penodwyd Cydgysylltydd Defnyddio Grym i reoli'r risg ddynodedig hon. Mae Defnyddio Grym wedi'i neilltuo i aelod o'r Bwrdd fel ASIR (Maes o Ddidordeb a Chyfrifoldeb Arbennig). Yn ychwanegol, rhoddir gwybod i'r Bwrdd, sydd yno fel sylwedyddion os ydynt yn y sefydliad ac ar gael, am unrhyw fwriad i Ddefnyddio Grym. Ar yr adegau hynny, mae lefel proffesiynolrwydd y staff dan sylw, gan gynnwys y cyfle a roddir i'r dynion ddatrys y mater heb ddefnyddio grym, wedi gwneud argraff ar y Bwrdd

4.14 Mae gweithredu Ymweliadau'n ddiogel ac effeithiol yn allweddol i'r 'egwyddorion normalrwydd' ac i gynnal y rhwymau teuluol. Mae hefyd yn faes lle mae angen cydbwysu'r gyfundrefn yn ofalus rhwng rhyddid a rheolaeth, adsefydlu a diogelwch. Ystyria'r Bwrdd bod angen adolygu gwaith gweithredu Ymweliadau'n gyson.



## 5 CYDRADDOLDEB A THEGWCH

---

- 5.1 - 5.10 Mae Berwyn yn canolbwyntio'n helaeth ar gael cymuned unedig lle teimla pawb y caiff ei drin fel unigolyn.
- Mae adsefydlu wrth graidd popeth y mae'r Berwyn yn ei wneud gan y cydnabyddir y bydd adsefydlu dynion yn eu gwneud yn llai tebygol o aildroseddu yn y dyfodol.
- Mae hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'i wreiddio yn y diwylliant adsefydlol yn y Berwyn.
- Fel Carchar yng Nghymru, mae Berwyn yn cofleidio'r diwylliant Cymreig a'r Iaith Gymraeg gan roi cyfle i'r holl ddynion ddysgu am Gymru trwy ddsbarthiadau rheolaidd Cymraeg a diwylliant Cymru.
- Nid Cymry yw'r holl ddynion sydd yn y Berwyn, ond eir ati i ddathlu, cydnabod a hyrwyddo pob diwylliant ac iaith. Mae DIRFs (Ffurflenni Adrodd ar Wybodaeth am Wahaniaethu) gael mewn 27 o ieithoedd.
- Cyhoedda'r Berwyn strategaeth Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg i gyd-redeg â'r holl Wasanaethau Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, CGC (Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai) a PSO (Gorchmynion y Gwasanaeth Carchardai).
- Ymdrecha'r Berwyn i gyflawni a chynnal tegwch, cydraddoldeb a chyfiawnder ym mhopeth wrth wastad gydnabod ei oblygiad a'i ddyletswyddau statudol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Er enghraifft, yn ychwanegol at y naw nodwedd statudol gwarchoddedig, mae Berwyn wedi mynd ymhellach a chyflwyno dwy nodwedd ychwanegol i'w monitro mewn cydweithrediad â'r naw, sef
- Teithwyr Sipsi Roma
- Gwladolion Tramor

5.11 Cyferfydd y Grŵp Cydraddoldeb a Thegwch yn fisol a Grŵp Cydraddoldebyr URh (Uwch-dîm Rheoli) yn chwarterol.

5.12 Cyferfydd grŵp ffocws a fforwm pwrpasol ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchoddedig o leiaf unwaith bob dau fis, yn amlach pan fo angen penodol neu ofyn am hyfforddiant e.e. materion Trawsryweddol. Mae gan bob grŵp ffocws Arweinydd Nodweddion Gwarchoddedig pwrpasol.

Rhwng 1 Mawrth 2017 a 28 Chwefror 2018 derbyniwyd 105 o DIRFs, wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

- Oed x 4
- Oed / crefydd x 1
- Anabledd x 15
- Anabledd / oed x 1
- Rhywedd x 2
- Ailbennu Rhywedd x 9
- Hil x 44
- Hil/crefydd neu gred x 5
- Crefydd x 14
- Tueddiad Rhywiol x 10

5.13 Mae'r Berwyn wedi ymateb o fewn pum niwrnod i oddeutu 50% o'r holl DIRFs, ac ymateb i'r gweddill o fewn yr hyn sy'n ofynnol gan DdPA (Dangosydd Perfformiad Allweddol), sef 28 diwrnod.

Gellir cyflwyno'r holl gwynion DIRF yn electronig trwy dechnoleg DIRF yn yr ystafell. Dadansoddir yr holl gwynion DIRF - 105 yn y flwyddyn adrodd - a rhoddir gwybod yn syth i'r cyfarfod misol Cydraddoldeb ac Amrywiaethyn ychwanegol at gyfarfod Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Uwch-dîm Rheoli, ac i'r uwch-reolwr a ddynodwyd yr arweinydd cydraddoldeb priodol, am unrhyw dueddiadau a nodir.

5.14 Mae'r holl staff a benodwyd i'r Berwyn wedi cael hyfforddiant cydlynol cymunedol gan gynnwys hyfforddiant penodol ar ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg.

5.15 Cynhyrchir Adroddiad Cydraddoldeb Dalfa Fwy Diogel yn chwarterol, gan roi i'r Grŵp Cydraddoldeb ddadansoddiad manwl o ystadegau:

- Y CynllunGwobrwyoa Chyfrifoldeb
- Defnyddio Grym
- Dyfarniad gan gynnwys cyhuddiadau oedd yn bodoli ac a brofwyd
- Uned Gofalu a Gwahanu
- Mae gwaith dadansoddi cydraddoldeb/asesu effaith cydraddoldeb yn flaenllaw yn y polisiau a'r strategathau a ddatblygir neu a weithredir yn y Berwyn, yn cynnwys yr effaith a gâi'r cyfryw bolisiau ar y Gymraeg.

6.1 Adeilad 'annibynnol' ag iddo 22 o ystafelloedd yw'r UGG (Uned Gofalu a Gwahanu) yn y Berwyn (a adwaenir hefyd fel 'Ogwen'). Dynodir iddynt ddwy ystafell Rheoli Risg Hylifau Corfforol, dwy ystafell Ddiogelwch i *ddynion y cânt eu Gwyllo'n Gyson*, gyda 18 yn weddill ar gyfer defnydd cyffredinol. Mae'r ystafell Rheoli Risg Hylifau Corfforol wedi'i ddefnyddio bedair gwaith yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

6.2 Mae'r thema Adsefydlu, sy'n amlwg trwy'r sefydliad hefyd yn amlwg ar Ogwen, gyda rheolwyr a staff yn cael eu dewis am eu gallu i ofalu am rai o'r dynion mwyaf heriol, mewn modd fydd yn eu symud tuag at adsefydlu. Nid ydynt wastad yn llwyddiannus ac mae'n ffaith gydnabyddedig y gallwch wneud yr holl bethau cywir ond oni bai fod yr amseru'n gywir a'r dyn yn y lle iawn yn feddyliol i dderbyn y cyngor a'r arweiniad, ni fydd yn llwyddiannus y tro hwnnw.

6.3 Mae'r Bwrdd yn Monitro Ogwen yn ddyfal trwy ymweliad safonol wythnosol â'r holl ddynion a thrwy fynd i 99% o'r Adolygiadau Rheol 45 a gynhelir deirgwaith yr wythnos ar ddyddiau Llun/Mercher a Gwener. Mae'r Llywodraethwr sy'n cadeirio'r Adolygiadau wastad yn ymwybodol bod angen i ddyn fynd yn ôl i leoliad normal os yw hynny'n bosib a gall aelodau'r bwrdd sydd yno gadarnhau na chedwir unrhyw ddyn ar Ogwen am yn hwy nag sy'n wirioneddol raid. Clywir yn aml y dyfyniad, 'nid uned breswyl yw hon'.

6.4 Er gwaethaf yr uchod mae achosion unigol, yn aml yn ymwneud llawer ag iechyd meddwl, sy'n cymryd llawer o amser a gwaith i'w datrys, er enghraifft -

6.5. O'r diwedd, mae dyn ifanc a gyrhaeddod y Berwyn wedi iddo droseddu pan oedd yn ddigartref, wedi cael llety mewn cyfleuster iechyd meddwl lleol - nid yn hawdd ac nid yn sydyn.

Bellach mae dyn sydd yno am dymor hir ac sydd â hanes o broblemau iechyd meddwl, y ceisiodd y sefydliad gael lle mewn ysbyty diogel iddo lle cafodd driniaeth blaenorol, wedi cael lle yn ôl ar leoliad arferol, a hynny gyda chyfraniad dwys a pharhaus gan Seicoleg. Mae hyn yn gyflawniad sylweddol ac un y mae'r Bwrdd wedi'i ddilyn trwy Adolygiadau Rheol 45 a mynd i Ogwen bob wythnos.

6.7 Fodd bynnag, yn ein cyswllt â'r dynion ar Ogwen, mae dwy gŵyn a glywn yn fwy na dim arall -

1) Mae'n ymwneud â'r polisi meddyginiaeth ynghylch tynnu'n ôl feddyginieth ragnodedig os bydd y dyn, pan fydd yn cyrraedd, yn profi'n gadarnhaol i gymryd sylweddau anghyfreithlon ar y cyd gyda'r feddyginiaeth ragnodedig honno. Gall hyn olygu tynnu'n ôl feddyginiaeth gwrthseicotig a seiciatryddol.

Mae dyledion cyffuriau'n cronni ar Gymuned ac ofn o'r canlyniadau.

Mae aelodau o'r bwrdd o'r farn bod cysylltiad rhwng y ddwy gŵyn hon, yn yr ystyr bod dynion, y rhoddwyd y gorau i roi meddyginiaeth iddynt er ei fod am resymau rhagnodi da iawn, yn fwy tebygol o 'hunanfeddyginiaethu' i gwrdd â'u hangen amlwg. Gellir rhoi'r gorau i roi eu meddyginiaeth flaenorol iddynt mor fuan â'r diwrnod ar ôl iddynt gyrraedd a gall fod yn gysylltiedig â chyfundrefn feddyginiaethol sydd wedi para ers sawl blwyddyn.

Mae'r Bwrdd yn llwyr ymwybodol bod y polisi meddyginiaethau yn unol â chanllawiau rhagnodi NICE (y Sefydliad Genedlaethaol dros Ragoriaeth Glinigol).

## 7 LLETY A CHYFATHREBU

---

7.1 Adeilad newydd ei godi yw Berwyn yn darparu amodau byw glân a digonol i'r dynion sy'n byw yno. Mae'r cymunedau'n fawr ac yn cael digon o awyr. Gwneir defnydd da o'r delweddau Cymreig i greu cymuned a hyrwyddo uchelgais ddatganedig o wneud y 'mawr deimlo'n fach'.

7.2 Yn gyffredinol nid oes ystafelloedd cyfweld ar yr holl Gymunedau i staff ac aelodau'r Bwrdd wrth ymdrin â dynion, yn enwedig felly pan fo'r materion a godir yn sensitif a/neu gyfrinachol.

7.3 Yn ystafelloedd y dynion mae cawod, toiled a theleffôn yn ogystal â thechnoleg yn yr ystafell. Mae gorchuddion toiledau wrthi'n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd i wella mwy ar y cyfleusterau. 30%/70% yw cymhareb yr ystafelloedd sengl i ddwbl - yr hyn a ddywed y dynion yw y byddai well ganddynt ystafelloedd sengl.

7.4 Dylai pob dyn fod â Gweithiwr Allweddol dynodedig wedi'i neilltuo iddo am bedwar deg pum munud bob wythnos, i'w gynorthwyo gydag unrhyw faterion y byddo ganddo a gweithio trwyddynt. Nid felly yr oedd hi'n aml ac mae aelodau'r Bwrdd wedi codi'r mater ar sawl achlysur. Mae'r sefyllfa wedi gwella ond mae dal waith i'w wneud i gael canlyniad derbyniol.

Cafwyd problemau parhaus gyda'r system wresogi, ystafelloedd unigol, blociau o ystafelloedd a thros y Nadolig methodd y system wresogi a dŵr poeth. Am amryfal resymau technegol, cymerwyd pum niwrnod i drwsio'r broblem honno. Roedd y dynion yn cael gwybodaeth lawn am y problemau ac yn cael gwybod am yr hyn oedd yn cael ei wneud yn rheolaidd. Ymatebasont yn aeddfed a pharhaodd y carchar i weithredu.

7.6 Mae darparu TG i'r holl ddynion yn y Berwyn wedi rhoi'r cyfle i'w gwneud yn bosib i ddynion gyfathrebu'n unol ag 'egwyddorion normalrwydd' yn y byd y tu allan. Rhoddir cyfarwyddiadau trwy fentoriaid cymheiriaid sydd ar bob Cymuned.

7.7 Gyda'r System Unilink mae modd i ddynion reoli eu rhaglenni a'u ceisiadau oddi ar eu gliniaduron personol. Dywed y rhan fwyaf o ddynion ei bod yn llawer cynt ac yn haws na'r hen system bapur. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn cael cwynion nad yw amseroedd ymateb o hyd mor gyflym ag y byddent yn ei ddymuno ac nid yw'r system wastad yn blaenoriaethu ceisiadau brys, gan arwain at rwystredigaeth a dicter.

7.8 Mae'r Bwrdd yn bryderus y gall dynion droi at ddfrodi eu hystafelloedd pan fyddant yn rhwystredig a/neu'n ddig. Nid yw hyn yn dderbyniol. Mae'n arwain atynt yn cael eu rhoi ar Adroddiad ac yn gorfod talu am y difrod. Yn ogystal, mae'n ychwanegu at y pwysau a roddir ar Amey, sy'n gofalu am waith cynnal a chadw'r sefydliad.

7.9 Gweinir bwyd ar bob Cymuned o Ystafell Arlwyo Gymunedol. Yn ôl y dynion mae o'n dda, ond arferai fod yn well! Ystyria'r Bwrdd fod y bwyd yn dda ac ychydig iawn o geisiadau a dderbyniant ar y pwnc. Yr hyn sydd yn ein synnu yw nad oes, mewn sefydliad o faint Bewyn, 'fan paratoi brechdanau' yn y gegin. Golyga hyn nad yw'r arfer yn y rhan fwyaf o garchardai o frechdan oer i genio i'r holl ddynion yn opsiwn yn y Berwyn.

7.10 Mae Cyngorau Cymuned o ddynion, wedi'u hethol yn ffurfiol, yn yr holl Gymunedau.

7.11 Mae'r Bwrdd yn falch o nodi fod Uwch-swyddog Band 4 bellach yn ei le ar yr holl Gymunedau.

## 8 GOFAL IECHYD (yn cynnwys iechyd meddwl a gofal cymdeithasol)

---

8.1 Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyfrifoldeb dros gwrdd ag anghenion iechyd a lles poblogaeth y Berwyn a dechreuodd y broses gynllunio ar gyfer gwasanaethau iechyd yn 2014. Wedi'i wreiddio yn ffiniau dylunio a gweithredol y gwasanaeth mae'r cysyniad o wasanaeth cynhwysfawr sydd wedi'i integreiddio'n llwyr, ar gael i bawb, y gellir cael ato'n ôl angen clinigol.

8.2 Roedd yno broblemau'n ymwneud ag ailddylunio strwythurol a gwaith ailadeiladu/ailffitio yr oedd angen rhoi sylw iddo yn y pum mis cyntaf i agor y sefydliad. Golygodd hyn nad agorwyd yr holl gyfleusterau, yn cynnwys ystafelloedd radioleg, mân lawdriniaeth feddygol, deintyddol ac ymgynghori tan yr ail wythnos yng Ngorffennaf. Cafodd y rhan fwyaf o'r effaith ar y gwaith clingol ei lliniaru trwy ddefnyddio cyfleuster deintyddol symudol, tra cafodd ystafelloedd deintyddol yn y gwasanaeth eu hailffitio gan gontractwyr a chyswllt agos â chyfleusterau gofal eilaidd lleol oedd yn ddewis arall yn ystod y cyfnod hwn.

8.3 Mae'r cyfleusterau ar gyfer gwasanaethau iechyd a lles bellach yn gwbl agored ar draws y safle a rhoddir gofal mewn cyfleusterau modern gyda phwyslais ar agweddau adsefydlol o'r amgylchedd adeiledig.

8.4 Nid oes cyfleuster ysbyty cleifion mewnol yn y Berwyn, sy'n golygu bod angen i ddynion sy'n gorfod mynd i'r ysbyty gael eu trosglwyddo i Ysbyty Cyffredinol Maelor yn Wrecsam. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau a ganlyn i gyd ar gael 'ar y safle'.

Hyd at 19 o sesiynau Ymarferwyr yr wythnos yn ogystal â Chamddefnyddio Sylweddau Seico/Gymdeithasol, Ffisiotherapi, Gofal Sylfaenol, Iechyd Meddwl, Anabledd Dysgu a Gwasanaethau Deintyddol. Mae Seiciatrydd llawn amser wedi'i benodi'n ddiweddar. Hefyd ar y safle mae cyfleusterau pelydr X, Therapi Galwedigaethol, Awdioleg, Deietegydd, Optegydd a Chlinig Iechyd Rhyw, yn ogystal â Therapi Iaith a Lleferydd - adnodd arwyddocaol

8.5 Mae gofyn i wasanaethau perthnasol gwrdd â tharged Cyfeirio at Wasanaeth o 14 wythnos ac maent yn gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd wedi amlygu nifer annerbyniol y dynion nad ydynt yn mynd am apwyntiadau sydd wedi'u trefnu ar eu cyfer. Mae'r sefydliad yn ymwybodol o'r mater ac mae ganddo gynllun gweithredu yn ei le, ond mae hyn yn parhau i fod yn bryder.

8.6 Hyrwyddir iechyd a lles fel rhan o'r agenda adsefydlu gyda Gofal Iechyd yn gweithio ochr yn ochr â staff gwarcheidliol. Mae Berwyn yn sefydliad dim ysmegu, er y caniateir i ddyn ddefnyddio e-sigaréts yn ei ystafell.

8.7 Y mater y mae aelodau'r Bwrdd wedi'i godi gyda nhw, fwy nag unrhyw beth arall, yw optimeiddio meddyginiaethau sy'n unigryw i'r Berwyn, ond yn unol â'r Canllawiau Clinigol Cenedlaethol. Mae'n ffaith fod llawer o ddynion yn cyrraedd y Berwyn o sefydliadau eraill gyda meddyginiaethau rhagnodedig, yr ystyrir eu bod yn amhriodol ac yn anniogel ac y cânt eu defnyddio'n aml gyda sylweddau anghyfreithlon.

8.8 Wedi iddynt gyrraedd, gan ddibynnu ar eu meddyginiaethau rhagnodedig, gofynnir i ddynion roi sampl wrin, er mwyn gwneud profion 'ar y safle' i ganfod cyffuriau. Os dengys y prawf bod sylweddau sy'n peri pryder, yna defnyddir hwn i lywio'r gwaith optimeiddio meddyginiaethau, a allai olygu roi'r gorau i feddyginiaethau neu fesur sylweddau sydd ynddynt.

8.9 Dywedir wrth aelodau'r Bwrdd y seilir y penderfyniadau hyn ar wneud penderfyniadau clinigol cadarn, gyda chyfraniad gan fferyllwyr bob amser.

8.10 Mae gan aelodau'r Bwrdd, nad oes ganddynt gymwysterau meddygol, mae'n rhaid dweud, bryderon mawr iawn ynghylch canran y dynion sy'n mynd ymlaen o gael eu Derbyn, i Ymsefydlu ac yna ymlaen i'r Tŷ/Cymuned fwyaf priodol heb 'gefnogaeth' meddyginiaeth y gallent, mewn nifer o achosion, fod wedi bod yn eu defnyddio ers cyfnod maith. Byddai'n ymddangos i'r Bwrdd bod anfantais i bolisi sy'n golygu, i bob pwrpas, bod canran o ddynion yn mynd drwy ddadwenwyniad gorfodol sydd, y mae'n anochel yn caiff effaith ar eu hymddygiad ac yn ychwanegu at y problemau cyflenwi a galw yng nghyswllt cyffuriau anghyfreithlon yn y sefydliad.

### **8.11 Llwybrau - Agweddau, Meddylfryd ac Ymddygiad**

Rhydd seicoleg ac ymyraethau'r cymorth sy'n ofynnol i ddynion symud ymlaen a gadael ymddygiad troseddol ar ôl.

Ma gan y sefydliad ystod eang o raglenni y gallant gyfeirio'r dynion atynt, pob un gyda'r nod o newid agwedd, meddylfryd ac ymddygiad. Ceir sesiynau grŵp, sesiynau unigol, sesiynau a gyflawnir ar ffurf fodylaidd trwy Unilink - cymaint o opsiynau a chyfleoedd.

Bwriad y Bwrdd yw cynhyrchu Adolygiad Thematig ar yr amryfal lwybrau sydd ar gael yn y Berwyn, gan gynnwys yr hyn sydd wedi'i gwblhau'n llwyddiannus hyd yn hyn ac sy'n ei gwneud yn bosib i ddynion symud ymlaen i fywyd gwell, mwy cynhyrchiol.

9.1. Novus Cambria, partneriaeth gyda Choleg Cambria a Novus Cambria, sy'n rhoi addysg yn y Berwyn. Cyfuna'r bartneriaeth unigryw hon brofiad Coleg Cambria o gyflawni Addysg bellach yng Ngogledd Cymru ochr yn ochr â hanes profedig Novus o gyflawni Dysgu a Sgiliau mewn lleoliad o gadwraeth.

- Y weledigaeth yw creu diwylliant o adsefydlu a dysgu fydd yn cefnogi dynion y maent yn gofalu amdanynt i fod yn 'barod am yrfa a bywyd'.
- Nod y cwricwlwm yw cyflawni ystod o gyrsiau ymgysylltiol, ysgogol ac o safon sy'n cynnwys Sgiliau Hanfodol achrededig, cyrsiau Galwedigaethol/heb fod yn Alwedigaethol a Chyflogadwyedd trwy'r sefydliad cyfan.
- Darpara Novus Cambria hefyd ystod o weithgareddau cyfoethogi, a gyflawnir ar draws y sefydliad er mwyn dwyn dysgwyr i mewn a datblygu'r diwylliant dysgu.
- Mae Coleg Berwyn yn darparu 609 o leoedd dysgu craidd sy'n dwyn dynion i mewn mewn lleoliad ffurfiol yn seiliedig ar ddsbarth a hyfforddiant ar sgiliau arddull galwedigaethol.
- Mae'r model dysgu a sgiliau yn ffordd arloesol o weithredu sydd, yn y bôn, yn cefnogi adsefydlu trwy gyflawni canlyniadau cadarnhaol a mwy o gyfleoedd gwaith wedi i'r dynion gael eu rhyddhau.

9.2 Hyd yn hyn, mae cwricwlwm hyblyg wedi'i gyflawni i gefnogi'r sefydliad yn ystod y cynnydd sylweddol yn nifer y dynion. Ar hyn o bryd mae oddeutu 60 aelod o staff, nifer sy'n gynyddol dyfu. Bydd y gweithdai Hyfforddiant Galwedigaethol yn agor yn fuan a byddant yn gwella'n arw'r gallu i gyflawni cwricwlwm mwy amrywiol. Ymhlith y cyrsiau bydd Gwaith Coed, Gosod Brics a Phlastro yn y cyfleuster mwyaf diweddar a modern.

9.3 Mae aelodau'r Bwrdd yn ymweld â'r Berwyn yn rheolaidd ac yn barhaus, ac mae'r naws dysgu yn y dosbarthiadau'n parhau i wneud argraff arnynt.

9.4 Mae hi hefyd yn ffaith bod Coleg Cambria wedi gallu cynnig lleoedd addysgol ychwanegol oherwydd yr oedi yn cwblhau gwaith adeiladu'r Gweithdai a'r lleoedd gwaith yr oedd eu disgwyl trwy Ddiwydiannau fydd wedi'u lleoli yno a gosod offer yno. O'r herwydd, ychwanegwyd at y gweithgareddau pwrpasol sydd ar gael i'r dynion.

9.5 Data llwyddiant cyffredinol - 94% y flwyddyn hyd yma (ar gyfer y dynion a gedwir yno ac sydd ar drwydded) wrth gadw 98% o'r dysgwyr ar gyrsiau. Ar hyn o bryd, mae'r cwricwlwm wedi'i gyfyngu oherwydd nad oes gweithdai hyfforddiant galwedigaethol yno (oedi gyda'r gwaith adeiladu). Mae cynnig o lefel 3, sy'n lefel eithriadol o uchel, ar gael (cyfwerth â lefel A). Y bwriad yw cael cyrsiau amrywiol, megis Ffrangeg, gyda'r ystafelloedd cyfryngau digidol a byddant y rhai mwyaf diweddar a modern. Mae'r Celfyddydau Perfformio'n cyfrannu i'r Nosweithiau Meic Agored yn y sefydliad, a chânt groeso mawr iawn.

9.6 Mae llwyddiant gyda'r Gymraeg yn unol â Sgiliau Hanfodol Cymru sy'n 98%. Ceir Mentoriaid Cymraeg, mae Dwyieithrwydd yn ymhlyg ac mae dosbarthiadau Cymraeg ar gael i holl staff y sefydliad.

Mae'r ffaith nad oes hyfforddiant galwedigaethol ar ôl addo hynny wedi bod yn siom fawr i'r sefydliad, i'r Bwrdd Monitro Annibynnol ac, yn bwysicach, i'r dynion.

Rhesymau contractyddol sydd am yr oedi, a hynny o ran cwblhau adeilad yr hyfforddiant galwedigaeth a gosod offer ynddo.

Dechreuodd y contractwr diwydiannau Interserve yn y Berwyn ar y 1<sup>af</sup>o Dachwedd 2017 ac erbyn y 6<sup>ed</sup>o Dachwedd roedd wedi lansio'r gweithdy diwydiannau cyntaf, y Ganolfan Alw Census Data, gyda'r ail weithdy diwydiannau yn dilyn ar y 15fedo Dachwedd, LMB Textile Recycling.

10.2 Unwaith y bydd cyfleusterau'r prif weithdy'n agor bydd diwydiannau Interserve yn darparu lleoedd ar gyfer 520 o ddynion ar draws chwe gweithdy h.y.

Canolfan Alw Census Data - 140 o swyddi

LMB Recycling – 100 o swyddi

LMB Engineering – 60 o swyddi

City Windmills – 60 o swyddi

Ink2Work – 60 o swyddi

Emerald Trading – 100 o swyddi

10.3 Cyfleoedd Gwaith - er bod oedi gyda'r hyfforddiant galwedigaethol a addawyd, mae gwaith ar gael i'r holl ddynion yn y Berwyn h.y.

Cegin	40
Rheoli Gwastraff	24
Gwaith cydosod	20
Gerddi	24
DHL	85
Gwaith Cymunedol	200
Mentoriaid	30

10.4 Mae yna waith penodol y mae'r dynion yn ei wneud y mae'r Bwrdd yn ei ystyried yn waith sydd â gwerth penodol iddo o ran gwaith/gweithgaredd pwrpasol ac adsefydlu. Er enghraifft -

- Gweithio yn y rheng flaen yn y Dderbynfa
- Presenoldeb yn y Dderbynfa pan fo dynion yn cyrraedd o sefydliadau eraill
- Dyletswyddau'r dydd ar goridor y Gweithredwyr
- Gwaith ar y Cymunedau sy'n golygu cyfarwyddo dynion ar sut i ddefnyddio technoleg. Yn eu tro, cânt hwy eu mentora gan aelod o dîm TG y sefydliad.
- Menter gymdeithasol gan Arlwywyr yng Ngogledd Cymru, Dylan's, a chynhyrchu 'Pasteiod Carchar'. Enillwyr gwobr mewn Cystadleuaeth Genedlaethol. Bydd y fenter hon yn arwain at hyfforddiant a chyflogaeth wedi i'r dynion gael eu rhyddhau.
- Defnyddio dynion fel Mentoriaid Cymheiriaid a Goruchwylwyr Cyfundrefnau



## 11 PARATOI AR GYFER ADSEFYDLU

---

11.1 Mae'r sefydliad yn parhau i ddatblygu a gwreiddio'r gefnogaeth, y gwasanaethau a'r ymyraethau sydd ar gael i'r dynion yn y Berwyn, ar draws llwybrau'r carchar a bu i Lywodraeth Cymru adnabod grwpiau ag angen blaenoriaethol. Mae hyn yn cynnwys perthynas gyda phartneriaid mewnol ac allanol, yn ogystal â chyda sefydliadau'r trydydd sector. Wrth weithio fel hyn, mae wedi bod yn bosib canfod llawer o wasanaethau i gwrdd ag anghenion y dynion.

11.2 Mae nifer o'r partneriaid allanol hyn yn mynd i gyfarfodydd yn rheolaidd yn y Berwyn ac mae gan rai ohonynt staff yn y sefydliad e.e. yr Adran Gwaith a Phensiynau, Shelter, Cyngor ar Bopeth ac yn y dyfodol agos iawn, AA (Alcoholics Anonymous) yn ogystal â Byddin yr Iachadwriaeth.

11.3 Mae PACT - (Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai) sydd yn y Dderbynfa Ymweliadau yn gweithio'n rhagweithiol gyda Chyfleoedd Gwirfoddoli Teuluoedd.

11.4 Mae gan y dynion liniaduron yn eu hystafelloedd a thrwy'r rhain gallant gael mynediad at y rhaglenni Lleihau Aildroseddu.

11.5 Yn hanfodol, mae'r berthynas gyda thîm CAC (Cwmni Adsefydlu Cymunedol) sy'n cyflawni gwasanaethau adsefydlu yn y Berwyn yn rhagorol. Yn sgil hynny, mae'r dynion yn y Berwyn yn derbyn gwasanaethau adsefydlu ystyrlon, effeithiol ac sydd wedi'u teilwra.

11.6 Ymhlith llwyddiannau penodol gwaith y CAC roedd agor dros 100 o gyfrifon banc dynion sy'n nesáu at gael eu rhyddhau, cynhyrchu cardiau adnabod i'r rhai nad oes ganddynt fodd arall o ddangos pwy ydynt a dim un dyn yn cael ei ryddhau heb gael cynnig o lety.

11.7 trefn ar gyfer ymwelwyr a dynion yn y Neuadd Ymweliadau, sydd â'r nod o gefnogi rhwymau teuluol ac sydd ag 'egwyddorion normalrwydd' ac adsefydlu wrth ei wraidd - yn cael ei hadolygu a'i haddasu wrth wrth i broblemau peryg posib gael eu hadnabod.

11.8 Ar hyn o bryd, cynigir Cyfarfodydd Anghenion o ran Adsefydlu i'r holl ddynion sy'n nesáu at gael eu rhyddhau, waeth lle yw eu hardal ymsefydlu yng Nghymru neu Loegr. Maent yn rhoi cyfle gwych i gydgyssylltu gwaith cynllunio adsefydlu pan fydd yr holl ddynion yn cael eu rhyddhau ac maent yn cynnwys y dynion yn y trafodaethau, gan eu cael i ganolbwyntio ar eu rhyddhau a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu cynlluniau. Gyda nhw mae nifer fawr o bartneriaid sy'n gallu cefnogi a chynghori'r dynion, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, SMS (y Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau - GIG yn cyflawni yn y gymuned), Hafal (elusen iechyd meddwl sy'n cyflawni nifer o wasanaethau yn y gymuned ar draws Cymru, Arch (sy'n rhoi cefnogaeth ar gamddefnyddio sylweddau i oedolion yn y system cyfiawnder ieuenctid), Adran Tai yr Awdurdod Lleol, Shelter, Cwmni Adsefydlu Cymunedol, cynrychiolwyr iechyd mewnol a llawer o rai eraill.

11.9 Mae'r sefydliad wedi gweithio'n galed i feithrin perthynas gadarnhaol gyda'r gymuned leol ar ôl dechreuad anodd, yn rhannol oherwydd teimladau cryfion ynghylch codi carchar yn eu hardal a materion ynghylch parcio. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau yn cynnwys gŵyl awyr agored yn y gymuned leol oedd yn cynnwys llawer o staff y Berwyn. Cynnal dau ginio i bensiynwyr sy'n mynd i ganolfan ddydd leol, gyda'r bwyd wedi'i baratoi a'i weini gan y dynion a hwythau hefyd oedd yr adloniant. Roedd hwn yn ddigwyddiad mawr gyda llawer o hapusrwydd a hwyliau da a chinio tri chwrs heb ei ail.

11.10 Yn ogystal, cynhaliwyd cinio i dros 50 o fusnesau o'r Siambr Fasnach leol a arweiniodd at nifer o gynigion o Ryddhau ar Drwydded Dros Dro a chyfleoedd cyflogaeth posib i'r dynion pan gânt eu rhyddhau. Gwelir y math hwn o ymgysylltiad y tu draw i wal/ffens y carchar fel blaenoriaeth i'r Berwyn.

11.12 Mae darparu tai wedi i'r dynion gael eu rhyddhau'n her sylweddol i wasanaethau adsefydlu ac mae'r sefydliad yn ymgysylltu â nifer o ddarparwyr llety lleol a chenedlaethol. Digon yw dweud nad oes yr un dyn wedi gadael Berwyn heb gynnig o lety.

11.13 Ar ddiwrnod eu rhyddhau, mae dynion yn derbyn cyngor ymarferol gan staff Berwyn trwy wasanaeth 'lolfha ymadael', yn cynnwys holiadur cam wrth gam, lle mae modd sicrhau bod y dyn wedi paratoi cynlluniau teithio, wedi trefnu apwyntiadau a lle rhoddir sylw i faterion pwysig megis meddyginiaeth ragnodedig.

## C Adran - Gwaith y Bwrdd

Mae sefydlu Bwrdd newydd, mewn carchar newydd, yng Ngogledd Cymru lle nad oes carchar wedi bod o'r blaen, wedi bod yn heriol.

Dechreuasom gyda bwrdd craidd bychan, yn ogystal â gwasnaethau tri byrddiwr deuol h.y. 5+3 = 8. Mae'r nifer honno wedi lleihau'n raddol a bellach 6 yw'r nifer - gyda'r ddau fyrddiwr deuol diwethaf i fod yn dychwelyd i'w byrddau sylfaen yn y dyfodol agos.

Wedi ymgyrch recriwtio gychwynnol lwyddiannus, argymhellwyd cyfanswm o 11 aelod newydd ac fe'u penodwyd i Fwrdd y Berwyn. Credaf fod hyfforddi a mentora 11 o aelodau newydd yn record, ond barnwyd ei fod yn angenrheidiol o gofio'r amgylchiadau penodol.

Mae aelodau newydd ar gyfnod prawf o 12 mis, pryd gallant benderfynu a yw'r rôl yn addas iddynt a gall y Bwrdd asesu eu potensial fel aelodau effeithiol o'r Bwrdd. Hyd yn hyn, mae pedwar o'n haelodau newydd wedi ymddiswyddo yn ystod eu Blwyddyn Brawf am amryfal resymau da.

Fodd bynnag, mae gennym bellach graidd cryf o aelodau newydd, gyda dau eisoes wedi'u hargymell i gael eu penodi'n llawn ac mae'r pedwar arall yn nesáu at ddiwedd eu Blwyddyn Brawf.

Yn fuan byddwn yn dechrau Ymgyrch Recriwtio ac yn edrych ar atgyfnerthu Bwrdd Monitro Annibynnol CEM y Berwyn yn y dyfodol er mwyn sicrhau ein bod wedi'n paratoi ac yn gallu ymgymryd â'r dyletswyddau monitro pwysig yr ydym yn gyfrifol amdanynt.

Mae aelodau'r Bwrdd wedi monitro cyfanswm o bedwar Digwyddiad Difrifol yn ystod y flwyddyn adrodd hon gyda phob un ohonynt wedi dechrau pan oedd yr aelodau dan sylw yn y sefydliad ar eu Hymweliadau Rota rheolaidd.

<b>YSTADEGAU'R BWRDD</b>	
Nifer Aelodau'r Bwrdd a Argymhellir <i>(Sefydliad newydd, wedi'i asesu'n 24 pan fydd yn llawn)</i>	24
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd <i>(11 Aelod Newydd, 5 Aelod o'r Bwrdd Craidd, 3 Aelod Deuol o'r Bwrdd)</i>	19
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd <i>(6 Aelod Newydd, 4 Aelod o'r Bwrdd Craidd, 2 Aelod Deuol o'r Bwrdd)</i>	12
Cyfanswm nifer yr Ymweliadau â'r Sefydliad	815
Cyfanswm nifer yr adolygiadau ymwahanu yr aethpwyd iddynt - 99%	283

## Adran - Ceisiadau

Côd	Pwnc	Blwyddyn adrodd gyfredol	Blwyddyn adrodd flaenorol
A	Llety yn cynnwys golchi dillad gwelyau, dillad, ymolchi	10	Amherthnasol
B	Disgyblaeth yn cynnwys dyfarniadau, Cymhellion a Breiniau a Enillir, cosbau	12	
C	Cydraddoldeb	5	
D	Gweithgaredd Pwrpasol yn cynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, llyfrgell, trefn, amser allan o'r gell	13	
E 1	Llythyrau, ymweliadau, galwadau ffôn, cyfyngiadau gwarchod y cyhoedd	10	
E 2	Cyllid yn cynnwys tâl, arian preifat, arian i'w wario	3	
F	Bwyd a Cheginau	11	
G	Iechyd yn cynnwys gofal corfforol, meddyliol a chymdeithasol	42	
H 1	Eiddo yn y sefydliad	36	
H 2	Eiddo yn ystod trosglwyddo neu mewn sefydliad neu leoliad arall	52	
H 3	Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalog(au)	14	
I	Rheoli dedfrydau yn cynnwys Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref, Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ailgategoreddio	20	
J	Pryderon staff/carcharorion yn cynnwys bwlio mae *35/62 yn ymwneud ag un ymgeisydd lluosog	62	
K	Trosglwyddiadau	8	
L	Amrywiol	5	

	<b>Cyfanswm nifer y ceisiadau</b>	303	
--	-----------------------------------	-----	--

## **RHESTR O ACRONYMIAU A DDEFNYDDIR SY'N YMWNEUD Â'R CARCHAR**

ACCT	Asesu Gofal, Gofal yn y Ddalfa a Thriniaeth
UGG	Uned Gofalu a Gwahanu
DIRF's	Ffurflenni Adrodd ar Wybodaeth am Wahaniaethu
CEM	Carchar ei Mawrhydi
y Bwrdd	Bwrdd Monitro Annibynnol
GA	Gweithiwr Allweddol
MAPPA	Trefniadau Amlasiantaethol Gwarchod y Cyhoedd
NICE	Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol
NOMS	Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
CGC	Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai
GGC	Gorchymyn y Gwasanaeth Carchardai
R & R	Gwobrwyo a Chyfrifoldeb
URh	Uwch-dîm Rheoli